

CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD GWYNEDD A MÔN

Pwyntiau Gweithredu

Sesiwn Gwrandawriad 7 – Mwynau a Gwastraff			
Cyfeirnod	Pwnc	Pwynt Gweithredu	Amserlen
S7/PG1	PS19 – Mwynau	<p>Cyflwyno Newid Materion sy'n Codi i:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • ddiwygio geiriad maen prawf 2 er mwyn cyfeirio at yr angen i gynnal 'lleiafswm' banc tir. • ddiwygio geiriad y polisi er mwyn cynnwys cyfeiriad tuag at adnoddau mwynau o'r radd uchaf. Ystyried gwneud hynny drwy un ai ddiwygio meini prawf presennol neu gynnwys maen prawf newydd. • ddiwygio geiriad y polisi er mwyn sicrhau ei fod yn gyson gyda'r newidiadau a fwriedir i bolisi MWYN1. 	Erbyn 30/09
S7/PG2	MWYN1	Cyflwyno Newid Materion sy'n Codi i ddiwygio geiriad y polisi er mwyn rhoddi eglurhad pellach i'r polisi. Cynnig defnyddio geiriad y polisi cyffelyb sydd yng Nghynllun Datblygu Lleol Casnewydd (yr enghraifft a gyfeiriwyd ato gan y Llywodraeth).	Erbyn 30/09
S7/PG3	MWYN1	Cyflwyno Newid Materion sy'n Codi i gywiro testun y polisi i nodi y bydd yr ardaloedd diogelu mwynau yn cael eu dangos ar y mapiau cynigion nid y mapiau cyfyngiadau. Ymhellach mae angen dangos yr ardaloedd a warchodir neu ardaloedd a ffafrir ar y mapiau cynigion	Erbyn 30/09

Sesiwn Gwrandawriad 7 – Mwynau a Gwastraff			
Cyfeirnod	Pwnc	Pwynt Gweithredu	Amserlen
		ddim cyfyngiadau.	
S7/PG4	MWYN3	Cyflwyno Newid Materion sy'n Codi i gywiro'r polisi i gyfeirio at 'Ardaloedd a Ffefrir' yn unig er mwyn sicrhau cywirdeb.	Erbyn 30/09
S7/PG5	MWYN4	Cyflwyno Newid Materion sy'n Codi i ddiwygio testun y polisi i gyfeirio at gynigion datblygu 'newydd'.	Erbyn 30/09
S7/PG6	MWYN6	Ail-edrych ar y polisi yn ei gyfanrwydd, ystyried un ai ei ail strwythuro neu ei rannu i ddau bolisi o ran gwarchod adnodd mwynau a gwarchod mwynderau lleol a chyflwyno Newid Materion sy'n Codi yn unol a hynny.	Erbyn 07/10
S7/PG7	MWYN9	Cyflwyno Newid Materion sy'n Codi i gynnwys cyfeiriad tuag at adfer ac ôl-ofal un ai drwy ddiwygio geiriad y polisi neu groesgyfeirio at Bolisi MWYN10. Ymhellach, ystyried os yw'r polisi angen cynnwys cyfiawnhad ar gyfer yr angen ar gyfer y pyllau benthyg, h.y. dim adnodd priodol neu adnodd a sylwedd priodol o fewn yr ardal leol.	Erbyn 30/09
S7/PG8	GWA1	Cyflwyno Newid Materion sy'n Codi i gynnwys cyfeiriad tuag at yr angen ar gyfer Asesiad Rheoli Gwastraff ynghyd a cheisiadau cynllunio yn GWA1, GWA2 a GWA3.	Erbyn 30/09
S7/PG9	GWA1	Cyflwyno Newid Materion sy'n Codi i ddiwygio geiriad y polisi er mwyn bod yn fwy eglur o ran pa safleoedd a allai fod yn addas ar	Erbyn 07/10

Sesiwn Gwrandawriad 7 – Mwynau a Gwastraff			
Cyfeirnod	Pwnc	Pwynt Gweithredu	Amserlen
		gyfer chwareli trefol.	
S7/PG10	GWA2	Ystyried diwygio geiriad y polisi er mwyn ychwanegu eglurder a cheisio'i gryfhau a chyflwyno Newid Materion sy'n Codi yn unol a hynny.	Erbyn 30/09
S7/PG11	GWA2	Cyflwyno Newid Materion sy'n Codi i gynnwys maen prawf ychwanegol sydd yn cyfeirio at yr isadeiledd trafndiaeth leol yn unol ag eglurhad y polisi.	Erbyn 30/09
S7/PG12	GWA2, para 7.5.54	Cyflwyno Newid Materion sy'n Codi i fireinio'r geiriad er mwy sicrhau ei fod yn cydymffurfio hefo agweddau eraill o'r Cynllun, e.e. materion ecolegol.	Erbyn 30/09
S7/PG13	GWA3	Ystyried ymhellach yr angen i ddiwygio geiriad y polisi yn unol â hyn a awgrymir yn sylwadau Magnox:- <ul style="list-style-type: none"> • Beth fyddai goblygiadau diwygio'r geiriad? • Pam fod diwygio'r geiriad yn hanfodol? • Beth fyddai'r goblygiadau o ran yr AC/AAS? 	Erbyn 07/10
S7/PG14	PS5/PCYFF1	Cyflwyno Newid Materion sy'n Codi i gryfhau'r cyfeiriad a wneir tuag at waredu gwastraff mewn modd cynaliadwy.	Erbyn 07/10

Sesiwn Gwrandawriad 7 – Mwynau a Gwastraff

Cyfeirnod	Pwnc	Pwynt Gweithredu	Amserlen
S7/PG15	PS9	Cyflwyno Newid Materion sy'n Codi i gywiro'r cyfeiriad a wneir tuag at y safle niwclear presennol i fod yn berthnasol i safle Wylfa Newydd.	Erbyn 07/10